

Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Ile rhoddwyd rhybudd)

Beauty Oasis Salon & Day Spa

Dyddiad arolygu: 21 Awst 2018

Dyddiad cyhoeddi: 22 Tachwedd
2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	13
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	17
4.	Beth nesaf?	20
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol	21
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.....	22
	Atodiad B – Cynllun gwella	23

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gymesur.

Ein blaenoriaethau

Trwy ein gwaith ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Beauty Oasis Salon and Day Spa ar 21 Awst 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC, gydag un ohonynt yn arwain yr arolygiad.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, nodwyd gennym fod Beauty Oasis Salon and Day Spa yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd a oedd yn addas i roi triniaethau golau pwls dwys (IPL).

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Rhoddwyd digon o wybodaeth i gleifion cyn y driniaeth ac ar ei hôl
- Mae'r gwasanaeth yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion, gan geisio adborth yn rheolaidd i wella gwasanaethau lle y bo'n gymwys
- Roedd y safle yn fodern, yn lân, yn daclus ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Roedd y gwaith papur yn ymwneud â diogelwch yr adeilad a chyfarpar wedi'i drefnu'n dda ac roedd tystiolaeth glir o ddyddiadau ar gyfer gweithredu
- Roedd gan y gwasanaeth amrywiaeth o weithgareddau gwella ansawdd ar waith i fonitro a nodi meysydd y gall fod angen eu datblygu
- Gwelsom fod cofnodion cleifion yn cael eu storio'n ddiogel
- Roedd y staff wedi cael hyfforddiant cyfredol ar sut i ddefnyddio'r cyfarpar IPL yn ddiogel.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Roedd angen diweddarau'r canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben¹ er mwyn adlewyrchu cyfeiriad e-bost newydd AGIC
- Mae angen i'r staff gwblhau hyfforddiant diogelu
- Mae angen rhoi system ar waith i roi tystiolaeth bod y staff wedi darllen polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth ac felly'n deall eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Ni nodwyd unrhyw feysydd lle roedd diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

¹ Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i bob darparwr gwasanaeth lunio Datganiad o Ddiben a dylai gynnwys manylion penodol am y gwasanaeth, pa driniaethau a roddir, i bwy (oedran), gan bwy ac unrhyw gyfarpar a ddefnyddir. Am ragor wybodaeth ewch i hiw.org.uk

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Beauty Oasis Salon and Day Spa wedi'i gofrestru i ddarparu ysbyty annibynnol yn 70 The Highway, New Inn, Pontypŵl, NP4 0PL.

Cafodd y gwasanaeth ei gofrestru gyntaf ar 2 Awst 2017.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o 11 o staff sy'n cynnwys pedwar gweithredwr IPL.

Darperir ystod o wasanaethau sy'n cynnwys:

- Gwaredu gwallt
- Triniaeth fasgwlaidd
- Adfywio'r croen
- Tynnu nam croen pigmentog anfalaen
- Triniaeth acne

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Nodwyd gennym fod y staff yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion.

Roedd y gwasanaeth yn sicrhau bod cleifion yn cael gwybodaeth fanwl cyn y driniaeth ac ar ei hôl er mwyn eu helpu i wneud penderfyniad hyddysg ynglŷn â'u triniaeth.

Roedd gan y gwasanaeth brosesau priodol ar waith er mwyn sicrhau bod ymgynghoriadau â chleifion yn cael eu cynnal yn breifat gan barchu eu hurddas.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y gwasanaeth i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 19 o holiaduron. Ymhlith sylwadau'r cleifion roedd y canlynol:

"Mae'r holl staff yn wych, maent yn darparu gwasanaeth da iawn ni waeth pa driniaeth rydych yn ei chael; mae'n bleser dod yma"

"Wastad mor gyfeillgar a gwnaethant i mi deimlo'n gyfforddus am fy mod ychydig yn ofnus. Methu credu pa mor dda yw'r canlyniadau mor gyflym, ac rwy'n ystyried cael triniaeth ar fwy o ardaloedd. Mae'r merched bob amser yn groesawgar iawn ac rwy'n dwli ar y salon!"

"Proffesiynol iawn ac effeithlon iawn"

"Mae'r gwasanaeth, y driniaeth a'r ôl-ofal bob amser o safon uchel yn Beauty Oasis. Bob amser yn teimlo'n ddiogel pan rwy'n dod am driniaeth yma"

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom aelodau o'r staff yn gofyn i gleifion gwblhau ffurflen hanes meddygol cyn i'r driniaeth ddechrau, a lofnodwyd gan y claf a'r gweithredwr IPL. Gwiriwyd hanes/cyflwr/cyflyrau meddygol cleifion ym mhob apwyntiad er mwyn sicrhau bod y driniaeth yn cael ei darparu'n ddiogel a'i chofnodi ar gofnod y claf.

Cadarnhaodd pob claf a gwblhaodd holiadur AGIC ei fod yn llenwi ffurflen hanes meddygol, neu fod rhywun yn cadarnhau ei hanes meddygol, bob amser cyn iddo gael unrhyw driniaeth.

Urddas a pharch

Cyn unrhyw driniaeth, cynhaliwyd trafodaethau â chleifion er mwyn sicrhau eu bod yn deall sut y câi'r triniaethau eu rhoi.

Dywedodd y staff wrthym fod tywelion urddas yn cael eu darparu ar gyfer y cleientiaid lle y bo'n briodol a bod yr ystafell ar gau pan fydd triniaethau yn cael eu cynnal.

Roedd gan y safle ddigon o le i sgwrsio'n breifat a thrafodwyd gwybodaeth bersonol heb i unrhyw un arall allu clywed beth oedd yn cael ei ddweud.

Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno iddo gael ei drin ag urddas a pharch gan y staff yn y salon ac yn teimlo ei fod yn gallu cynnal ei breifatrwydd, ei urddas a'i wedduster ei hun bob amser yn ystod apwyntiadau.

Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion

Cafodd pob claf ymgynghoriad cyn dechrau ar unrhyw driniaeth fel y gellid esbonio'r broses a'r canlyniad(au) yn llawn. Trafodir risgiau a chyngor ôl-ofal hefyd yn yr ymgynghoriad cyn y gofynnir i glaf lofnodi'r ffurflen gydsynio er mwyn cadarnhau ei fod yn deall ac yn cytuno i gael y driniaeth. Gwelsom dystiolaeth o ffurflenni cydsynio wedi'u cwblhau, gan sicrhau bod pob rhan o'r ffurflenni wedi'i llenwi a bod llofnodion cleifion a staff i'w cael arnynt.

Nodwyd gennym fod cleifion yn cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad hyddysg ynglŷn â'u triniaeth. Mae hyn oherwydd bod cleifion yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb cyn unrhyw driniaeth gyda gweithredwr IPL. Roedd trafodaethau â chleifion yn cynnwys canlyniad tebygol y driniaeth a oedd yn cael ei chynnig a'r risgiau a'r manteision a oedd yn gysylltiedig â hi. Dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael prawf clwt cyn cael eu trin yn ogystal â chyngor ôl-ofal yn dilyn y driniaeth. Roedd hyn yn golygu bod y gwasanaeth yn cymryd camau er mwyn sicrhau diogelwch cleifion. Gwelsom enghreifftiau o wybodaeth ysgrifenedig a roddwyd i gleifion hefyd.

Dywedodd pob claf wrthym ei fod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal ar sut i atal haint a chynorthwyo'r broses wella ar ôl y driniaeth.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd canllaw i gleifion ar gael a oedd yn rhoi gwybodaeth am y gwasanaeth ac yn cynnwys yr holl feysydd hynny sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Darparwyd datganiad o ddiben yn ystod ein hymweliad. Wrth edrych ar y ddogfen, nodwyd gennym ei bod yn cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Ar gyfer y ddwy ddogfen, gwnaethom argymhell diweddarau cyfeiriad e-bost AGIC i'r cyfeiriad newydd.

Gwelsom fod y ddwy ddogfen ar gael yn yr ardal aros a bod copïau yn cael eu darparu i'r cleifion lle y bo'n briodol.

Ni ddywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur fod ei farn am y gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu yn y salon wedi'i cheisio, er enghraifft, drwy ddefnyddio holiaduron cleifion. Gwnaethom drafod hyn ar adeg ein hymweliad a dywedodd y staff wrthym eu bod yn gofyn i'r cleifion gwblhau ffurflen adborth ar ôl yr ail neu'r drydedd driniaeth. Gwnaethom awgrymu i'r rheolwr cofrestredig ystyried rhoi system ar waith er mwyn i'r cleifion gyflwyno adborth cyffredinol yn ogystal â chwblhau ffurflenni adborth y salon.

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym mai Saesneg oedd ei ddewis iaith a'i fod yn gallu siarad â staff yn ei ddewis iaith bob amser.

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur AGIC hefyd fod staff wedi gwrando arno yn ystod ei apwyntiad a'i fod yn teimlo ei fod wedi cael ei gynnwys, cymaint ag yr oedd am gael ei gynnwys, mewn penderfyniadau ynghylch ei driniaeth.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen diweddarau'r canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben er mwyn adlewyrchu cyfeiriad e-bost newydd AGIC.

Cynllunio a darparu gofal

Cafodd pob claf apwyntiad ymgynghori cyn cael y driniaeth, a oedd yn cynnwys asesu'r math o groen sydd ganddo a phrawf clwt. Gwelsom fod canlyniad yr asesiad hwn yn cael ei ddogfennu a'i ddefnyddio i gynorthwyo gyda thriniaethau. Gwelsom enghreifftiau o ddogfennau gwybodaeth a dogfennau ôl-ofal, a oedd yn cynnwys y risgiau a'r manteision a oedd yn gysylltiedig â'r driniaeth. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC ei fod wedi cael prawf clwt er mwyn sicrhau gosodiad diogel ac effeithiol ar gyfer yr IPL o ystyried y math o groen a blew sydd ganddo cyn iddo gael triniaeth.

Gwelsom enghreifftiau o gofnodion cleifion, a lenwyd ac a ddiweddarwyd gan y claf a'r ymarferydd ym mhob apwyntiad.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn cynnal cofrestr gyffredinol o driniaeth sy'n benodol i'r peiriant IPL. Roedd y cofnodion hyn yn fanwl ac yn drylwyr fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd mynediad i Beauty Oasis i lawr gris am fod yr ystafell IPL ar y llawr gwaelod. Dywedodd y staff y byddent yn hysbysu cleifion am hyn ar lafar cyn apwyntiad. Fodd bynnag, roedd mynedfa gefn hefyd gyda llai o risiau a oedd yn cael ei defnyddio fel mynedfa amgen i'r cleifion os gofynnwyd amdani.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth dinasyddion

Roedd gan Beauty Oasis system ar waith i gael adborth gan y cleifion. Gwelsom samplau o rai holiaduron cleifion wedi'u cwblhau, ac roedd pob un ohonynt yn rhoi adborth cadarnhaol am y gwasanaeth a'r triniaethau a ddarperir.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod canlyniadau'r ffurflenni adborth yn cael eu dadansoddi'n rheolaidd i sicrhau bod y sylwadau'n cael eu hadolygu a bod camau gweithredu yn cael eu cymryd lle y bo'n briodol.

Am nad oedd y gwasanaeth wedi bod yn gweithredu ers cyfnod hir o amser, nid oedd nifer sylweddol o ffurflenni adborth ar gael, ond dywedodd y staff mai eu bwriad oedd adolygu'r holl adborth a sicrhau bod sylwadau'n cael eu hadolygu a bod camau gweithredu yn cael eu cymryd lle y bo'n briodol.

Yn unol â datganiad o ddiben y salon, dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym y bydd adroddiad o ganfyddiadau allweddol adborth cleifion yn cael ei lunio a bydd ar gael.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Roedd systemau ar waith a oedd yn sicrhau bod cleifion yn cael eu trin mor ddiogel â phosibl. Nodwyd gennym fod y peiriant IPL yn cael ei gynnal a'i gadw yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr a bod y staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar sut i ddefnyddio'r peiriant.

Gwelsom fod yr ystafell driniaeth yn lân ac yn daclus ac roedd staff yn ymwybodol o'r tasgau glanhau yr oedd angen eu cyflawni bob dydd er mwyn sicrhau bod safonau yn parhau'n uchel.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth wedi cymryd camau i ddiogelu iechyd a sicrhau diogelwch a llesiant staff a chleifion.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Nodwyd gennym fod trefniadau ar waith i ddiogelu'r staff a oedd yn gweithio ar y safle a'r bobl a oedd yn ymweld ag ef a sicrhau eu llesiant.

Gwelsom dystiolaeth bod Profion Dyfeisiau Cludadwy (PAT) yn gyfredol, er mwyn helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn addas at y diben ac yn ddiogel i'w defnyddio.

Gwelwyd tystysgrifau a oedd yn dangos bod y gwiriadau diogelwch nwy a gwifrau trydanol ar gyfer yr adeilad yn gyfredol.

Roedd trefniadau diogelwch tân ar waith. Gwelsom fod asesiad risg tân wedi'i gwblhau yn 2018 a bod y rheolwr cofrestredig wedi gweithredu ar yr argymhellion a wnaed o ganlyniad i'r asesiad. Roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant tân ym mis Ionawr 2018 ac roedd y rheolwr cofrestredig wrthi'n cyfathrebu'r cynllun tân i'r holl staff, a fydd yn cynnwys ymarferion tân rheolaidd ac wedi'u dogfennu. Roedd y diffoddwyr tân wedi'u gwasanaethu ac roedd arwyddion clir i'r allanfeydd tân.

Roedd yr holl staff wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf a gwelsom dystysgrifau a oedd yn dilysu eu hyfforddiant. Roedd pecyn cymorth cyntaf ar gael ac roedd y staff yn cynnal gwiriadau i sicrhau bod y pecyn wedi'i stocio'n briodol bob amser. Gofynnem i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod eitemau yn y pecyn cymorth cyntaf yn cael eu gwirio hefyd i wneud yn siŵr bod eitemau sydd â dyddiadau terfyn yn cael eu disodli.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod y safle yn lân, yn daclus ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Disgrifiodd y staff y trefniadau ar gyfer atal a rheoli haint yn y gwasanaeth yn fanwl ac roedd y polisi hefyd yn adlewyrchu'r trefniadau hyn a ddisgrifiwyd i ni. Roedd amserlenni glanhau yn cael eu cynnal yn ddyddiol ac yn cael eu llofnodi gan yr aelod o'r staff a oedd yn gyfrifol am bob gweithred. Roedd y rhain yn cael eu hadolygu gan y rheolwr cofrestredig i sicrhau cydymffurfiaeth.

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer storio a chasglu gwastraff

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y lleoliad; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y safle yn lân iawn.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i drin cleifion dros 16 oed a chadarnhaodd y staff fod y gwasanaeth yn cydymffurfio â hyn.

Roedd polisi ar gyfer diogelu oedolion a phlant ar waith a oedd yn cynnwys gweithdrefn glir i'r staff ei dilyn pe bai unrhyw bryderon ynghylch diogelu unigolion. Gwnaethom argymhell ychwanegu manylion y tîm diogelu lleol i'r polisi fel y gellid rhoi gwybod am unrhyw bryderon yn briodol.

Nid oedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu oedolion a phlant sy'n agored i niwed, a gwnaethom argymhell fod hyn yn cael ei gynnal.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai pob aelod o'r staff gael hyfforddiant cyfredol ar sut i ddiogelu oedolion a phlant sy'n agored i niwed a dylid cadw tystiolaeth bod yr hyfforddiant wedi'i gwblhau yn eu ffeil staff.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom dystiolaeth fod y peiriant IPL wedi'i galibradu² a'i wasanaethu yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr.

Gwelsom fod protocolau triniaeth ar waith ar gyfer y peiriant IPL a'u bod yn cael eu goruchwyllo gan ymarferydd meddygol arbenigol.

Gwelsom fod contract yn ei le gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau³ a bod rheolau lleol⁴ a oedd yn manylu sut i weithredu'r peiriant yn ddiogel. Roedd y rheolau hyn wedi'u hadolygu gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau a gwelsom eu bod wedi cael eu llofnodi gan y staff a oedd yn gweithredu'r peiriant IPL a ddangosodd eu bod yn ymwybodol o'r rheolau hyn a'u bod wedi cytuno i'w dilyn.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom dystysgrifau i roi tystiolaeth bod y gweithredwyr IPL wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth⁵ ar gyfer defnyddio triniaethau IPL. Yn ogystal, roedd y staff i gyd wedi cael hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r peiriant IPL drwy'r gwneuthurwr.

Gwelsom fod cyfarpar amddiffyn y llygaid ar gael i gleifion a gweithredwr y peiriant IPL. Cadarnhaodd y staff fod sbectolau yn cael eu harchwilio'n rheolaidd i weld a oeddent wedi'u difrodi.

² Gall calibradu rheolaidd helpu i sicrhau bod perfformiad y peiriant laser yn parhau'n gyson dros amser, gan sicrhau'r perfformiad gorau ac allbwn o'r ansawdd uchaf.

³ Mae'r Cynghorydd Diogelu rhag Laserau yn rhywun sy'n meddu ar ddigon o fedrusrwydd, gwybodaeth a phrofiad o ran materion perthnasol sy'n ymwneud â diogelwch rhag laserau ac a all roi cymorth proffesiynol priodol wrth nodi peryglon, ac asesu risgiau, ac wrth gynnig unrhyw reolaethau a gweithdrefnau amddiffynnol angenrheidiol. Mae llawer o Gynghorwyr Diogelu rhag Laserau hefyd yn darparu hyfforddiant diogelwch rhag laserau.

⁴ Dylai rheolau lleol (neu weithdrefnau gwaith diogel) adlewyrchu arferion gwaith diogel ac ymwneud â'r gwaith o reoli laserau, systemau IPL a dyfeisiau LED o ddydd i ddydd. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/474136/Laser_guidance_Oct_2015.pdf

⁵ Anelir hyfforddiant Craidd Gwybodaeth at weithredwyr sy'n defnyddio laserau a systemau IPL ar gyfer amrywiol driniaethau croen. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys gwybodaeth a chanllawiau ar sut i ddefnyddio laserau a systemau IPL yn ddiogel.

Roedd arwydd y tu allan i'r ystafell driniaeth a oedd yn nodi pryd roedd y peiriant IPL yn cael ei ddefnyddio. Yn ogystal, byddai'r staff yn cloi'r ystafell o'r tu fewn yn ystod triniaethau, i atal unrhyw fynediad anawdurdodedig. Dywedwyd wrthym fod y peiriant yn cael ei ddiogelu bob amser a dim ond unigolion gyda'u cyfrineiriau eu hunain gellid ei ddefnyddio.

Adolygwyd y ddogfennaeth a oedd yn ymwneud ag ymweliad diwethaf y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau. Ni nodwyd unrhyw welliannau yn yr adroddiad.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom dystiolaeth fod systemau addas ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd. Er enghraifft, roedd y gwasanaeth yn ceisio barn cleifion yn rheolaidd fel ffordd o lywio gofal ac yn archwilio cofnodion er mwyn sicrhau bod cysondeb gwybodaeth. Roedd cyfarpar cymorth cyntaf yn cael ei archwilio'n rheolaidd ac roedd rhestrau gwirio rheoli haint yn cael eu cwblhau'n wythnosol.

Rheoli cofnodion

Nodwyd gennym fod gwybodaeth am gleifion yn cael ei chadw'n ddiogel. Roedd cofnodion papur yn cael eu cadw mewn cabinet dan glo a dim ond staff awdurdodedig a allai eu gweld.

Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion cleifion a chanfod dystiolaeth bod nodiadau cleifion yn cael eu cynnal i safon uchel.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd sut mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Gwelsom fod gan Beauty Oasis dîm effeithiol ar waith a oedd yn cael ei gefnogi gan strwythur rheoli lle roedd y staff yn cael eu cefnogi ac yn cael yr hyfforddiant diweddaraf i ddarparu triniaethau IPL.

Roedd systemau ar waith er mwyn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn cael eu diweddarau a'u cyfathrebu i'r staff yn rheolaidd. Gwnaethom gynghori bod y staff yn llofnodi'r polisïau a'r gweithdrefnau i gadarnhau eu bod wedi'u darllen ac yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Roedd systemau sefydledig ar waith i gynnal gwiriadau cyn cyflogi ac i gefnogi'r staff i gael y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf. Rydym yn argymhell cynnal hyfforddiant diogelu ar gyfer y staff i gyd i sicrhau y gellir delio ag unrhyw bryderon diogelu yn briodol.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Caiff Beauty Oasis ei redeg gan y rheolwr cofrestredig sy'n gyfrifol am reoli'r gwasanaeth o ddydd i ddydd ac sy'n un o'r pedwar gweithredwr IPL.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth nifer o bolisïau ar waith a oedd yn cael eu diweddarau'n rheolaidd ac a oedd yn hawdd cael gafael arnynt. Roedd gan y dogfennau ddyddiadau adolygu a chyhoeddi. Yn ystod yr ymweliad, gwnaethom gynghori efallai yr hoffai'r rheolwr cofrestredig roi system ar waith a oedd yn rhoi tystiolaeth pan roedd y staff wedi darllen a deall y polisïau a'r gweithdrefnau. Bydd hyn yn rhoi tystiolaeth i gadarnhau bod y staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Caiff unrhyw ddiweddariadau i'r polisïau a'r gweithdrefnau eu cyfathrebu i'r staff drwy femos a chyfarfodydd.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd gyda'r tîm cyfan o staff yn cael eu cynnal ddwywaith y flwyddyn. Mae cyfarfodydd grŵp bach hefyd yn cael eu cynnal yn rheolaidd ond nid oedd y naill na'r llall wedi'u dogfennu. Gwnaethom gynghori bod cofnodion o'r cyfarfodydd yn cael eu cadw i sicrhau y gellir cyfathrebu negeseuon allweddol i unrhyw un na all ddod i gyfarfod a'u bod yn cofnodi problemau a drafodwyd a phenderfyniadau a wnaed.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyfredol.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Nodwyd gennym fod gan y gwasanaeth weithdrefn cwynion ar waith. Dywedodd y staff wrthym fod y gwasanaeth wedi rhoi proses addas ar waith ar gyfer ymdrin â chwynion, a'u cofnodi, yn briodol a dangosodd hyn fod y gwasanaeth yn dysgu o unrhyw bryderon a oedd yn cael eu codi neu unrhyw gwynion a oedd yn cael eu gwneud.

Nid oedd y gwasanaeth IPL wedi derbyn unrhyw gwynion ers i'r gwasanaeth gael ei gofrestru.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Gwelsom dystysgrifau yn dangos bod pob defnyddiwr sydd wedi'i awdurdodi a oedd yn gweithredu'r peiriant IPL wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth a bod y staff i gyd wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf.

Gwnaethom argymhell (gweler Diogelu yn yr adran flaenorol) fod y staff yn cwblhau hyfforddiant diogelu. Bydd hyn yn sicrhau bod gan y staff y sgiliau a'r wybodaeth i allu delio â phroblemau diogelu yn briodol.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Dywedwyd wrthym am yr arferion recriwtio a chyflogi sydd ar waith i sicrhau bod gwiriadau cyflogaeth priodol yn cael eu cynnal ar gyfer staff newydd. Roedd hyn yn cynnwys gwiriad y gwasanaeth datgelu a gwahardd⁶ a

⁶ Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel ac atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed. Mae'n cymryd lle'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol.

dywedwyd wrthym y caiff hyn ei adnewyddu bob tair blynedd ar gyfer y staff i gyd. Gwnaethom gydnabod bod hyn yn enghraifft o arfer da oherwydd mae'n galluogi'r gwasanaeth i wneud dewisiadau recriwtio mwy diogel a'u cynnal.

Roedd cofnod hyfforddi yn cael ei gwblhau ar gyfer pob aelod newydd o staff a oedd yn cynnwys gwybodaeth sefydlu, hyfforddiant a diogelwch tân.

Caiff arfarniadau blynyddol eu cynnal ar gyfer y staff i gyd hefyd sy'n cynnwys perfformiad a datblygiad.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd.

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan eir i'r afael â'r rhain.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol gael eu cynnal â rhybudd neu'n ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Cyrraedd y [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatrwyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Beauty Oasis Salon & Day Spa

Dyddiad arolygu: 21 Awst 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae angen diweddarau'r canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben er mwyn adlewyrchu cyfeiriad e-bost newydd AGIC.	Rheoliad 7 (1) (f)	Mae'r e-bost wedi'i ddiweddarau bellach wedi'i gwblhau ar y ddwy ddogfen.	Sarah Henson	Yn syth
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Dylai pob aelod o'r staff gael hyfforddiant cyfredol ar sut i ddiogelu oedolion a phlant sy'n agored i niwed a dylid cadw tystiolaeth bod yr	Rheoliad 20 (1) (a) a (2) (a)	Ychwanegwyd cwrs at y cynllun hyfforddiant i'w gwblhau yn Chwarter 4	Sarah Henson	Cwblhau erbyn

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
hyfforddiant wedi'i gwblhau yn eu ffeil staff.		2018.		31 Rhagfyr 2018
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Ni nodwyd unrhyw argymhellion				

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Sarah Henson

Teitl swydd: Swyddog cyfrifol

Dyddiad: 16 Medi 2018